OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 1267

## Rheoliadau Cynlluniau Trwyddedau Rheoli Traffig (Cymru) 2009

## RHAN 5

Sancsiynau

**Y camau y caniateir eu cymryd am waith sydd heb ei awdurdodi**

**18.**—(1) Pan fo person —

(a) yn ymgymryd, heb drwydded, â gwaith y mae'n ofynnol cael trwydded ar ei gyfer; neu

(b) yn torri unrhyw amod mewn trwydded;

caiff yr Awdurdod Trwydded ei gwneud yn ofynnol drwy hysbysiad i'r person hwnnw gymryd unrhyw gamau rhesymol a bennir yn yr hysbysiad, a chaniateir iddynt gynnwys camau i waredu'r gwaith, cywiro'r toriad neu leiafu unrhyw rwystr i'r stryd sy'n gysylltiedig â'r gwaith neu roi pen ar y rhwystr hwnnw.

(2) Rhaid i'r hysbysiad bennu'r gwaith neu'r toriad sy'n dod o dan baragraff (1)(a) neu (b) ac y mae'r hysbysiad hwnnw'n ymwneud ag ef.

(3) Os bydd ymgymerwr statudol yn methu â chydymffurfio â hysbysiad o'r fath o fewn y cyfnod rhesymol a bennir yn yr hysbysiad, caiff yr Awdurdod Trwyddedau gymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad ac unrhyw gamau rhesymol y mae'n barnu eu bod yn briodol gan roi sylw i'r gwaith neu'r toriad sy'n dod o dan baragraff (1)(a) neu (b) ac y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef ac adennill oddi wrtho'r costau a dynnir yn rhesymol ganddo wrth wneud hynny.